# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 12FED RHAGFYR, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor,**

**Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 2 Rhagfyr 2016)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

**AELODAETH (15)**

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels
Christopher Hughes
W. Tudor Owen
John Wyn Williams
Annwen Hughes
Dilwyn Morgan
Ann Williams
R. H. Wyn Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes
Eryl Jones-Williams
Louise Hughes
Angela Russell
Elfed Williams

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies
Peter Read

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 20.06.16 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 6 - 12

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinnol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 25.05.16
b) 04.10.16
c) 19.10.16

## 6. TRWYDDEDU TACSIS A DEDDF MEWNFUDO 2016 13 - 15

I ystyried adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio

## 7. FFORDD GWYNEDD - YMARFER TRWYDDEDU

Ystyried adroddiad y Rheolwr Trwyddedu

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 20.06.16

**Yn bresennol**:

Y Cynghorwyr, Annwen Daniels, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Eryl Jones-Williams, Tudor Owen, Angel Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams a John Wyn Williams

Hefyd yn Bresennol: Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Rhun ap Gareth (Uwch Gyfreithiwr Gwasanaethau), Eirlys Jones (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Cymerodd y Cynghorydd Eryl Jones Williams y cyfle i ddiolch i'r aelodau ac i'r swyddogion am eu cefnogaeth yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd.

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Tudor Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y cyfnod 2016 – 2017**

Diolchwyd i'r Cynghorydd Eryl Jones Williams am ei waith fel Cadeirydd y Pwyllgor 2014 - 2016

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Annwen Hughes yn Is Gadeirydd y Pwyllgor am y cyfnod 2016 - 2017**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Peter Read ac Wyn Williams a Geraint Brython (Cyfreithiwr)

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 7fed o Fawrth 2016 fel rhai cywir yn ddarostyngedig ar nodi bod y Cynghorydd Angela Russell yn bresennol

**7. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgorau Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 07.03.16 a 05.04.16

**8. FFORDD GWYNEDD – YMARFER TRWYDDEDU**

Cafwyd diweddariad ar lafar gan yr Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd ar ymarferiadau diweddar gan y gwasanaeth i adolygu prosesau gwaith Trwyddedu er mwyn sicrhau bod pobl Gwynedd yn ganolog i'r hyn sydd yn cael ei weithredu.

Nodwyd bod y broses yn rhoi cyfle i bawb gael mewnbwn i'r adolygiad gwasanaeth. Cadarnhaodd fod yr adolygiad eisoes wedi cynnwys edrych ar bwrpas y gwasanaeth,mesuryddion perfformiad, canfod barn cwsmeriaid, ac adolygu prosesau gwaith cyfredol.. Adroddwyd bod yr ymarferiad, er yn un dwys yn cael mewnbwn cadarnhaol gan holl staff yr Uned Trwyddedu.
Sylwadau yn codi o'r drafodaeth;

- Angen sicrhau cysondeb ffioedd tacsi - cais i gynnwys hyn yn y polisi diwygiedig
- Awgrym i ystyried hyfforddiant arbenigol yng nghyd-destun diogelwch plant, i yrwyr tacsi
- Awgrym i gydweithio yn agosach gyda'r cwmnïau contractio er mwyn sicrhau cydymffurfiad gyda amodau cytundebau a diogelwch y cyhoedd
- Awgrym i ystyried bod gyrwyr tacsi i gael hyfforddiant cymorth cyntaf. Er nad yn ofyn statudol, byddai i'w weld fel ymarfer da - cais i'w gynnwys yn yr adolygiad polisi

Dechreuodd y cyfarfod am 10.50am a daeth i ben am 11.15am

# Eitem 5



# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 25.05.2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Angel Russell ac Elfed Williams

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu),Ellen Robinson - arsylwi (Swyddog Cludiant Addysg a Gwasanaeth Cymdeithasol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. CROESO ac YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Eryl Jones Williams. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT**

a) Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd.

b) Ategwyd bod datganiad o gollfarnau wedi ei gyflwyno a bod y datganiad yn nodi bod gan yr ymgeisydd gollfarn a oedd yn berthnasol i drwyddedu gyrwyr tacsi. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

c) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais. Ymhelaethodd ar gefndir ei gollfarn ac amlygodd ei ddymuniad i gael gwaith er mwyn cynnal ei deulu. Nododd hefyd ei fod wedi derbyn neges gan gwmni lleol yn cynnig gwaith iddo petai'r drwydded yn cael ei chaniatáu.

ch) Yn cefnogi cais Mr A roedd gweithiwr cefnogol a gadarnhaodd ei fod yn adnabod yr ymgeisydd ers rhai blynyddoedd. Nododd bod yr ymgeisydd yn berson gonest yn

chwilio am waith ers dros 5 mlynedd i gynnal ei deulu. Cadarnhawyd bod yr ymgeisydd wedi derbyn cynnig am waith gan gwmni lleol petai'r drwydded yn cael ei chaniatáu.

d) Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'r gweithiwr cefnogol o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

dd) Derbyniodd yr Is Bwyllgor y wybodaeth a gofnodwyd yn y datganiad DBS fel disgrifiad cywir o'r digwyddiadau. Atgoffwyd yr Is-bwyllgor, yn unol ag adran 59 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, na ellid rhoi trwydded oni bai eu bod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded

e) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y ffactorau canlynol :

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- sylwadau llafar gan yr ymgeisydd a'r gweithiwr cefnogol
- bod gan yr ymgeisydd gollfarnau blaenorol :

    - bod y drosedd, er bod yn un o drais, wedi digwydd mwy na 3 blynedd yn ôl, ac felly, nid oedd yn teilyngu gwaharddiad awtomatig o dan baragraff 6.5 o Bolisi y Cyngor.
    - y gwaharddiad rhag gyrru am 6 mis. Wrth drafod paragraff 12.9 o'r Polisi, nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod y gwaharddiad gyrru byr a ddaeth i ben dros flwyddyn yn ôl yn rheswm i beidio â rhoi'r drwydded i'r ymgeisydd.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat a chaniatawyd cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben 3:00pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL
# 04.10.16

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Annwen Hughes a Louise Hughes

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. CROESO ac YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Eryl Jones Williams. Cyflwynwyd y panel a'r swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. (i) CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT (MR A)**

a) Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd.

b) Ategwyd bod datganiad o gollfarnau wedi ei gyflwyno a bod y datganiad yn nodi bod gan yr ymgeisydd gollfarn a oedd yn berthnasol i drwyddedu gyrwyr tacsi. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

c) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais ac yn benodol y gollfarn o guro a ddigwyddodd yn 2011 gan nodi mai digwyddiad domestig ydoedd rhwng ei wraig ag ef. Ni fu i'w wraig gymryd achos yn ei erbyn ond oherwydd bod y digwyddiad wedi ei weld ar deledu cylch gyfyng bu i Gwasanaeth Erlyn y Goron cymryd camau yn ei erbyn. Cadarnhaodd wrth y Panel ei fod yn parhau i fyw gyda'i wraig ac wedi cael dau blentyn, ac un arall ar y ffordd ers y digwyddiad.

ch) Cyflwynwyd neges e-bost i genfogi cais Mr A gan Arolygydd gyda'r Heddlu ac yn datgan ei fod wedi ei adnabod ers dros 20 mlynedd. Mynegodd bod Mr A yn berson disglair, huawdl a charedig. Roedd ar bob achlysur yn berson call a bod y gollfarn flaenorol yn ddigwyddiad hollol allan o'i gymeriad. Ni fyddai ganddo unrhyw bryder i gynnig swydd i Mr A. ac yn dymuno llwyddiant iddo dderbyn trwydded ar gyfer gyrru tacsi.

d) Ymatebodd Mr A i nifer o gwestiynau gan Aelodau'r Panel a oedd yn cynnwys materion am ei waith, rhesymau pam y cyflwynwyd y cais, a.y.b.

(dd) Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'r Swyddog Trwyddedu o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

(e) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y ffactorau canlynol :

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- sylwadau llafar gan yr ymgeisydd
- e-bost o gefnogaeth gan Arolygydd gyda'r Heddlu
- bod gan yr ymgeisydd gollfarnau blaenorol :

  - bod y collfarnau am ddifrod troseddol o 1990 a 1991 wedi digwydd 26 a 25 mlynedd yn ol.
  - Bod y gollfarn am yfed a gyrru yn 1998 wedi digwydd 16 mlynedd yn ol ynghyd a'r drosedd am guro wedi digwydd yn 2011, $5^1/_2$ mlynedd yn ol
  - Er bod y collfarnau uchod yn rhai difrifol bu iddynt ddigwydd flynyddoedd yn ol

O dan baragraffau 6.5 a 11.3 o'r polisi perthnasol, ac o ysytired bod dros 3 mlynedd wedi mynd heibio mewn perthynas a phob euogfarn, nad oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried euogfarnau hyn yn sail ddigonol dros wrthod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat a chaniatawyd cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

**(ii) CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT (MR B)**

Mynegodd yr Is-bwyllgor siom nad oedd yr ymgeisydd wedi troi fyny i'r Is-bwyllgor ac o'r herwydd:

**PENDERFYNWYD: (a) Gohirio cymryd penderfyniad ar y cais uchod, yn wyneb y ffaith nad oedd yr ymgeisydd yn bresennol a'r Is-bwyllgor angen mwy o wybodaeth ac eglurhad pellach gan yr ymgeisydd ynglyn a'r collfarnau.**

**(b) Gofynnwyd i'r Swyddog Trwyddedu gysylltu a'r ymgeisydd gan awgrymo wrtho i gyflwyno tystlythyrau i gefnogi ei gais gan gyflogwr a / neu ddarpar gyflogwr cyn i'r Is-bwyllgor ystyried ei gais ymhellach.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 am a daeth i ben 12.20 pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 19.10.2016

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Tudor Owen (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Ann Williams a John Wyn Williams

**Swyddogion:** Geraint B Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**1. CROESO ac YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cynghorydd Tudor Owen . Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT**

a) Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat o'r newydd.

b) Ategwyd bod datganiad o gollfarnau wedi ei gyflwyno a bod y datganiad yn nodi bod gan yr ymgeisydd gollfarn a oedd yn berthnasol i drwyddedu gyrwyr tacsi. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol.

c) Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais. Ymhelaethodd ar gefndir ei gollfarn ac ymddiheurodd am beidio amlygu'r collfarnau hynny ar ei ffurflen gais. Nododd ei ddymuniad i gael gwaith er mwyn cyfrannu at gostau prifysgol ei blant a chynnal ei hun a'i gartref. Amlygodd ei fod eisoes yn gyrru loriau a cherbydau adeiladu yn ei swydd bresennol a bod profion dwys yn cael ei gwneud ar ei iechyd a'i allu i yrru yn ofalus.

ch) Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

dd) Derbyniodd yr Is Bwyllgor y wybodaeth a gofnodwyd yn y datganiad DBS fel disgrifiad cywir o'r digwyddiadau. Atgoffwyd yr Is-bwyllgor, yn unol ag adran 59 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, na ellid rhoi trwydded oni bai eu bod yn fodlon bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded

d) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y ffactorau canlynol :

- gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS
- sylwadau llafar yr ymgeisydd
- bod gan yr ymgeisydd gollfarnau:

  Ystyriwyd bod y collfarn o ddefnydd twyllodrus o fanylion trwydded yrru a chollfarn cysylltiedig o fethu â darparu tystysgrif yswiriant i'r Heddlu yn rhai hanesyddol (dyddiedig 2000). Yn unol a pharagraff 8.2 o'r Polisi Trwyddedu mae angen i 3 blynedd basio yn dilyn collfarn am drosedd yn ymwneud ag anonestrwydd, cyn y gellid ystyried rhoi trwydded. Nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod hyn yn reswm i wrthod y cais.

  Ystyriwyd bod y collfarn o rybudd am aflonyddu yn 2013 yn un hanesyddol. Yn unol a pharagraff 17.1 o'r Polisi Trwyddedu, mae angen i 12 mis basio ers derbyn y rhybudd cyn ystyried rhoi trwydded, ond gyda'r digwyddiad yn un oedd wedi digwydd dros 3 blynedd yn ôl, nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod hyn yn rheswm i wrthod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat a chaniatawyd cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben 3:00pm

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL** |
| **DYDDIAD:** | **12 RHAGFYR 2016** |
| **TEITL:** | **TRWYDDEDU TACSIS A DEDDF MEWNFUDO 2016** |
| **PWRPAS:** | **ER GWYBODAETH** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETHAU RHEOLEIDDIO** |

**CEFNDIR**

1. Mae Deddf Mewnfudo 2016 (Deddf 2016) yn diwygio cyfundrefnau trwyddedu presennol yn y DU i geisio atal gweithio anghyfreithlon yn y sector trwyddedu tacsis/cerbydau hurio preifat a cherbydau hacni. O 1 Rhagfyr 2016, bydd darpariaethau perthnasol Deddf 2016 yn dod i rym i sicrhau nad yw Awdurdodau Trwyddedu yn cyflwyno trwyddedau i fewnfudwyr anghyfreithlon ac yn cyflawni'r ddyletswydd hon drwy wiriadau mewnfudo. Personau gyda'r hawl i aros yn y DU a gweithio yn y DU yn unig all dderbyn, ac yna gadw naill ai trwydded yrru (Hacni a Hurio preifat) neu drwydded gweithredwr hurio preifat.

2. Mae Deddf 2016 yn nodi bod y sector tacsis Hacni a Hurio Preifat yn wynebu cryn risg o weithio anghyfreithlon, o ganlyniad i lefelau uchel o hunangyflogaeth sy'n golygu nad yw gyrwyr â'r hawl arferol i dderbyn gwiriadau gwaith fel rhan o berthynas gyflogaeth.

3. Mae Deddf 2016 hefyd yn ymgorffori dulliau diogelu mewnfudiad yng nghyfundrefnau trwyddedu presennol yng nghyswllt Deddf Trwyddedu 2003 ar draws y DU. Nid yw dyddiadau cychwyn ar gyfer y darpariaethau hyn wedi'u cadarnhau eto, a bydd y Pwyllgor Trwyddedu Canolog yn cael ei friffio ar y darpariaethau hyn unwaith fydd y Swyddfa Gartref wedi cadarnhau dyddiadau cychwyn; a phan fydd Canllawiau perthnasol wedi'u cyhoeddi.

4. **Effaith y mesurau newydd**

5. Mae'r darpariaethau yn Neddf 2016 yn diwygio cyfundrefnau trwyddedu presennol er mwyn atal pobl heb statws mewnfudiad cyfreithlon a'r hawl i weithio rhag dal trwyddedau gyrrwr cerbyd hacni neu yrrwr neu weithredwr cerbyd hurio preifat. Cyflawnwyd hyn drwy addasu deddfwriaeth drwyddedu bresennol a gynhwysir yn Neddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.
6. Mae'r darpariaethau newydd yn golygu na ddylid cyflwyno trwyddedau gyrrwr a gweithredwr i bobl sy'n bresennol yn y DU yn anghyfreithlon, sydd heb ganiatâd i weithio, neu sydd â chaniatâd i weithio ond sy'n destun amod sy'n eu gwahardd rhag dal trwydded o'r fath. Os fydd caniatâd mewnfudiad person i fod yn y DU â chyfyngiad amser sy'n llai na hyd statudol ar gyfer trwydded gyrrwr neu weithredwr, rhaid cyflwyno'r drwydded am gyfnod sydd ddim yn fwy na chyfnod caniatâd yr ymgeisydd i fod yn y DU. Os fydd y Swyddfa Gartref yn cwtogi cyfnod neu'n dod â chaniatâd person i fod yn y DU i ben (cyfeirir ato fel cwtogiad neu ddiddymiad), bydd unrhyw drwydded a ddelir gan y person hwnnw yn darfod yn awtomatig.

7. Mae'r darpariaethau hefyd yn ychwanegu troseddau a chosbau mewnfudiad at y rhestr o resymau lle gall awdurdodau trwyddedu wahardd neu ddiddymu trwyddedau gyrrwyr cerbyd hacni neu yrrwyr neu weithredwyr cerbydau hurio preifat. Mewn amgylchiadau pan fydd trwydded gyrrwr neu weithredwr yn dod i ben, yn cael ei diddymu neu ei gwahardd ar seiliau mewnfudo, rhaid ei dychwelyd i'r awdurdod trwyddedu sydd wedi'i chyflwyno. Mae methiant i ddychwelyd y drwydded yn drosedd, a gellir ei chosbi drwy gollfarn mewn Llys Ynadon gyda dirwy.

8. Mae dyletswydd ar awdurdodau trwyddedu i beidio â chyflwyno trwyddedau i bobl a waharddwyd rhag eu dal gan eu statws mewnfudiad. Wrth benderfynu p'un a yw rhywun wedi'i wahardd, mae dyletswydd statudol ar awdurdodau trwyddedu i ystyried yr arweiniad a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref.

9. Nid yw'r gofyn i wirio statws mewnfudiad ymgeiswyr trwyddedau yn diwygio nac yn disodli'r prawf 'ffit a phriodol' presennol y mae'n rhaid i awdurdodau trwyddedu ei gwblhau; mae hyn yn cynnwys derbyn Tystysgrif Ymddygiad Da ar gyfer ymgeiswyr sydd wedi byw dramor am gyfnod.

10. **Personau sydd wedi'u gwahardd rhag dal trwydded**

Bydd person yn cael ei wahardd rhag dal trwydded gyrrwr cerbyd hacni neu yrrwr neu weithredwr cerbyd hurio preifat oherwydd eu statws mewnfudiad os yw:

- person angen caniatâd i gael mynediad neu aros yn y DU a heb ei dderbyn; neu
- mae caniatâd person i gael mynediad neu aros yn y DU
    - yn annilys,
    - wedi dod i ben (naill ai oherwydd cwtogiad, diddymiad, canslad, treigl amser, neu fel arall), neu
    - yn destun amod sy'n atal y person rhag gwneud gwaith o'r math hwnnw.

Mae person hefyd yn cael ei wahardd rhag dal trwydded os yw'n destun amod ar ei ganiatâd i fod yn y DU sy'n ei atal rhag dal trwydded, er enghraifft, neu os yw'n destun cyfyngiad mewnfudiad nad yw'n caniatáu iddo weithio.

11. **Dyletswydd Awdurdodau Trwyddedu**

12. O 1 Rhagfyr 2016, bydd gofyn i Swyddogion yr Uned Drwyddedu gynnal sawl gwiriad newydd ar bob cais newydd neu gais adnewyddu, neu geisiadau i adolygu trwyddedau presennol.

13. Mae'r Swyddfa Gartref wedi nodi na ddylai Swyddogion Trwyddedu wneud tybiaethau am hawl person i weithio yn y DU neu ei statws mewnfudiad ar sail ei genedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, acen, lliw ei groen na'r cyfnod mae wedi byw yn y DU.

14. Bydd y darpariaethau hefyd yn gosod dyletswyddau gorfodaeth ar swyddogion gorfodaeth Trwyddedu i wahardd neu ddiddymu trwyddedau Cerbydau Hurio Preifat neu Hacni neu drwyddedau Gweithredwr pan fydd statws mewnfudiad person wedi'i wahardd rhag dal trwydded.

15. Nid yw gofynion gwirio yng nghyswllt ceisiadau am drwyddedau newydd neu geisiadau i adnewyddu yn ôl-weithredol; ni fydd statws mewnfudiad personau a dderbyniodd eu trwyddedau cyn 1 Rhagfyr 2016 yn gorfod cael gwiriadau ychwanegol hyd nes y bydd angen adnewyddu'r drwydded.

16. Ar gyfer y rhai â chaniatâd cyfyngedig i aros yn y DU; rhaid ail-gynnal y gwiriad gyda phob cais dilynol i adnewyddu neu ymestyn y drwydded hyd nes y bydd yr ymgeisydd yn dangos bod ganddynt yr hawl i aros yn y DU am gyfnod amhenodol, ac, o ganlyniad, nad oes unrhyw gyfyngiadau ar eu gallu i weithio.

17. Ar gyfer gyrwyr a gweithredwyr, os fydd person yn colli'r hawl i aros yn y DU yn ystod oes y drwydded; bydd y drwydded yn dod i ben a rhaid ei dychwelyd i'r awdurdod Trwyddedu. Mae methu â dychwelyd trwydded i'r Awdurdod Trwyddedu yn yr amgylchiadau hyn yn drosedd.

18. Mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol i'r ymgeisydd yn unig ac nid ydynt yn berthnasol i MOT nac unrhyw wiriad cerbyd arall. Yn ogystal, nid ydynt yn berthnasol i drwyddedau gyrwyr y DVLA, er bod Deddf Mewnfudo 2014 a Deddf 2016 wedi cyflwyno darpariaethau ynglŷn â'r mater a diddymiad trwyddedau DVLA yng nghyswllt mudwyr anghyfreithlon ac wedi darparu ar gyfer y drosedd newydd o yrru'n anghyfreithlon yn y DU.

19. Rhaid i Swyddogion Trwyddedu fod yn fodlon nad yw person wedi'i wahardd rhag dal trwydded **cyn** cyflwyno trwydded.

Mae gwirio dogfennau person er mwyn penderfynu os allant ddal trwydded yn cynnwys **tri cham allweddol:**

- **Derbyn** dogfen(nau) (g)wreiddiol y person;
- **Gwirio'r** ddogfen(nau) ym mhresenoldeb yr ymgeisydd; a
- Gwneud a chadw **copi** clir o'r ddogfen(nau).

20. Bydd y Swyddfa Gartref yn cyflwyno rhestr fanwl o ddogfennau fydd angen i'r Awdurdod Trwyddedu eu gwirio. Os yw'r ymgeisydd yn methu â darparu'r dogfennau angenrheidiol; bydd y cais neu'r adnewyddiad yn cael ei wrthod.

21. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai swyddogion trwyddedu allu gwneud asesiad nad yw'r person wedi'i wahardd rhag dal trwydded drwy gynnal gwiriad gweledol o'r ddogfen(nau) yn erbyn y person sy'n eu cyflwyno. Bydd hyn yn cynnwys pob achos ble mae'r ymgeisydd yn ddinesydd Prydeinig. Bydd y Swyddfa Gartref yn gallu darparu cymorth os na ellir gwirio statws mewnfudiad drwy'r dogfennau perthnasol.

22. Rhaid gwirio'r dogfennau ym mhresenoldeb yr ymgeisydd bob tro fel y gellir gwirio bod y dogfennau'n ddilys, ac mai'r ymgeisydd yw'r un person a nodir yn y dogfennau.

23. Ar ôl archwilio dogfennau'r ymgeisydd, os fydd swyddog trwyddedu'n fodlon nad oes unrhyw gyfyngiad ar hawl i weithio yn y DU; ni fydd angen cynnal gwiriadau dogfen os gwneir cais i adnewyddu'r drwydded.

24. **<u>Goblygiadau Adnoddau</u>**

25. Mae Swyddogion Trwyddedu eisoes yn gwirio rhai o'r dogfennau sydd eu hangen dan Ddeddf Mewnfudo 2016 - er dibenion galluogi gwiriad Cofnod Troseddol DBS pan dderbynnir cais i adnewyddu neu gais gan yrrwr newydd. Fodd bynnag, rhaid cynnal pob gwiriad ym mhresenoldeb yr ymgeisydd; a gallai'r gwiriadau gymryd mwy o amser, a gallai ceisiadau cychwynnol gymryd mwy o amser i'w prosesu. Bydd swyddogion angen hyfforddiant pellach ar adnabod dogfennau ffug.

## ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys yr adroddiad